


# Perfformiad.Gorau@Abertawe

## Crynodeb y Cynllun Gwella ar gyfer 2004-05

CITY AND COUNTY OF SWANSEA • DINAS A SIR ABERTAWE

# *Rhagair*

Dyma Grynodeb o Gynllun Gwella Dinas a Sir Abertawe ar gyfer 2004/05. Mae'n nodi blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer gwella, y cynnydd a wnaed ers y llynedd, y rhaglen arfaethedig o gamau gweithredu ar gyfer gwella, a'r ffordd y bydd y Cyngor yn mesur ei lwyddiant.

Rydym yn falch o adrodd bod canlyniadau perfformiad y Cyngor ar gyfer 2003/04 yn dangos tuedd ffafriol tuag at ein nod tymor hir o fod yn un o'r awdurdodau sy'n perfformio orau. Mae dros hanner y dangosyddion perfformiad yn dangos gwelliant o'r flwyddyn flaenorol ac mae mwy na chwarter ohonynt yn dangos ein bod ymhlith yr awdurdodau sy'n perfformio orau yng Nghymru a Lloegr.

Yn ystod 2003/04 derbyniodd y Cyngor ganlyniadau sawl arolygiad allanol o berfformiad gwasanaethau gan gynnwys canlyniad adolygiad mawr o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Casgliad yr adolygiad hwn oedd bod rhai pobl yn Ninas a Sir Abertawe yn cael eu gwasanaethu'n dda gan y Gwasanaethau Cymdeithasol a bernir bod rhagolygon addawol y bydd gwasanaethau'n gwella yn y dyfodol. Mae'r canlyniadau hyn ymhlith y gorau o holl Gydadolygiadau'r Gwasanaethau Cymdeithasol a gynhaliwyd yng Nghymru.

Eleni mae'r Cyngor a'i bartneriaid allweddol yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol wedi cynhyrchu'r Cynllun Cymunedol cyntaf ar gyfer ardal Abertawe – "Mae Uchelgais yn Hanfodol: Gwneud Abertawe Gwell". Fe'i ffurfiwyd trwy gyfres o ddigwyddiadau ac ymgynghoriadau ac mae'n dangos sut mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd i wneud Abertawe yn lle gwell.

Er bod y Cyngor yn ystyried bod ei holl wasanaethau'n bwysig, mae'n cydnabod bod ei adnoddau'n gyfyngedig. Mae diffinio blaenoriaethau corfforaethol yn fodd o sefydlu lle y mae angen canolbwyntio'r adnoddau hyn ar adeg benodol. Cynigir rhai ychwanegiadau a gwelliannau i Gynllun Corfforaethol y Cyngor, yn enwedig o ran llywodraeth agored ac atebolrwydd.

Mae cysylltu â chymunedau a defnyddwyr gwasanaethau a'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol yn rhan ganolog o ffordd y Cyngor o weithio ac adlewyrchir eu barn yng nghynigion y Cynllun hwn yn ogystal â'r Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Cymunedol.

*Chris Holley, Arweinydd*

*Tim Thorogood, Prif Weithredwr*

# *Y Weledigaeth ar gyfer Abertawe*

Wrth wraidd yr agendâu cenedlaethol a lleol mae'r angen am wella'r holl wasanaethau cyhoeddus a iechyd a lles cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd pob cymuned yng Nghymru. Y sylfaen ar gyfer mynd i'r afael â'r materion hyn yn fwyaf effeithiol ar lefel leol yw trwy baratoi'r Cynllun Cymunedol gan gynnwys yr asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol allweddol yn Abertawe.

Bwriad y Cynllun Cymunedol, a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2004, yw dangos sut mae pawb yn gweithio gyda'i gilydd i wneud Abertawe yn lle gwell. Mae paratoi'r Cynllun yn cael ei arwain gan Bartneriaeth Abertawe Gwell sy'n cynnwys y Cyngor ac asiantaethau allweddol eraill, gyda chefnogaeth Cynghrair o dros 70 o sefydliadau. Ffurfiwyd y Cynllun trwy gyfres o ddigwyddiadau ac ymgynghoriadau, gan gynnwys cytuno ar **Weledigaeth dymor hir ar gyfer Abertawe** sy'n cael ei rhannu gan bawb sy'n gysylltiedig.

**Erbyn 2020 bydd Abertawe yn Ddinas Ewropeaidd neilltuol**

- **sy'n cymharu â'r goreuon**
- **sy'n buddsoddi yn y dyfodol**
- **lle mae pawb yn bwysig**
- **sy'n gwerthfawrogi ei diwylliant a'i threftadaeth**

# *Cenhadaeth y Cyngor*

Mae'r Cynllun Corfforaethol, a fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf eleni, yn nodi'r cyfeiriad strategol a'r blaenoriaethau pwysicaf ar gyfer y Cyngor yn gyffredinol. Nodir y rhain yng Nghenhadaeth a Nodau Pennaf y Cyngor a'r 20 Blaenoriaeth Gorfforaethol ac maent yn ganolbwynt ar gyfer y Cabinet a'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol gyda chefnogaeth cyfraniadau gan Unedau Gwasanaeth.

Mae gan y Cyngor rôl allweddol wrth gyflwyno'r Weledigaeth dymor hir ar gyfer Abertawe. Felly mae'n hollbwysig bod y Cyngor yn nodi ei Genhadaeth dymor hir ei hun ar gyfer y sefydliad. Mae'r Genhadaeth ddiwygiedig yn ymgorffori tri tharged tymor hir allweddol y Cyngor.

**"Bydd y Cyngor hwn yn agored ac yn atebol, yn darparu gwasanaethau sydd ymhlith y gorau yn y DU ac yn arwain y ffordd wrth gyflawni'r Weledigaeth ar gyfer Abertawe".**

# Nodau Pennaf

Er mwyn rhoi mwy o ffocws i'r hyn y mae angen i'r Cyngor yn gyffredinol, a phob rhan o'r sefydliad, ei gyflawni yn y tymor canolig i symud tuag at y nod hwn, mae'r Cyngor wedi diffinio pedwar nod pennaf ar gyfer y tymor canolig. Diwygiwyd y pedwerydd nod.

**Byddwn yn:**

**Darparu gwasanaethau sydd o fewn y chwartel uchaf o ran Awdurdodau Unedol cymaradwy yn y DU.**
sy'n golygu y bydd canlyniadau'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ymhlith y 25% uchaf o ganlyniadau Awdurdodau Unedol cymaradwy yn y DU.

**Cyflawni gwelliannau sylweddol o ran boddhad cwsmeriaid yn gyffredinol.**
sy'n golygu trawsnewid mynediad cwsmeriaid i wasanaethau, ceisio cyflawni gofynion cwsmeriaid yn y pwynt cyntaf ac ail-drefnu prosesau cyflwyno gwasanaethau. Fe fydd hyn yn cael ei gyflawni trwy'r fenter **Gwasanaeth@Abertawe**.

**Gweithredu fel un sefydliad.**
sy'n golygu chwalu rhaniadau o fewn Adrannau a gwasanaethau, datblygu diwylliant 'Un Cyngor' a gwasanaethau unedig a gweithredu polisïau, systemau a gwasanaethau corfforaethol integredig.

**Arwain y gymuned drwy fod yn hygyrch ac yn atebol a chysylltu'n agored ac yn onest gyda phobl, grwpiau a sefydliadau lleol.**
sy'n golygu datblygu democratiaeth leol a gwasanaethau hygyrch ac atebol, arwain a hwyluso'r broses cynllunio cymunedol a sefydlu perthynas a partneriaethau agored ac onest gyda phobl, cymunedau, a grwpiau lleol ac asiantaethau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol.

# Cyflawni Perfformiad Gorau

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod angen gwneud llawer mwy i reoli a gwella perfformiad ar draws pob maes cyflwyno gwasanaeth. I gyflawni hyn, mae'r Prif Weithredwr wedi cyflwyno rhaglen **Perfformiad.Gorau@Abertawe**. Bydd Perfformiad Gorau yn cael ei gyflawni trwy:

- Ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael i'r Cyngor i'r eithaf — sef yn bennaf y cyllid rydym yn ei gael o'r llywodraeth ac incwm, ar yr un pryd â sicrhau bod ein gweithwyr yn y lle cywir ar yr adeg gywir ac yn darparu'r gwasanaethau cywir.
- Sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o alluoedd y Cyngor. Mae hyn yn golygu gwneud y defnydd gorau o'r dechnoleg sydd ar gael i ni, gan sicrhau bod y gweithwyr gorau yn cael eu recriwtio a'u hyfforddi a bod perfformiad ar draws pob gwasanaeth yn cael ei reoli'n effeithlon.
- Canolbwyntio ar ganlyniadau gyda phwyslais penodol ar anghenion ein holl gwsmeriaid.

## Gwelliant o ran Perfformiad

Mae'r tabl isod yn cymharu'r tueddiadau cyffredinol ar gyfer dangosyddion perfformiad ar gyfer 2003/04 a 2002/03 lle mae data ar gael.

| GWELLA | EISOES YN CYFLAWNI PERFFORMIAD GORAU | AROS YR UN PETH | DIRYWIO | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| **Y LLYNEDD (2003/04)** | | | | |
| 97 | 8 | 27 | 43 | 175 |
| 55% | 5% | 15% | 25% | 100% |
| **Y FLWYDDYN FLAENOROL (2002/3)** | | | | |
| 83 | 3 | 15 | 52 | 153 |
| 54% | 2% | 10% | 34% | 100% |

Yn gyffredinol, y pwyntiau allweddol yw bod:

- **60% o'r dangosyddion perfformiad yn gwella neu eisoes yn cyflawni'r perfformiad gorau posib, o'i gymharu â 56% y llynedd.**
- **25% o'r dangosyddion perfformiad yn dangos perfformiad sy'n dirywio o'i gymharu â 34% y llynedd.**

Yn yr adrannau canlynol, adroddir yr un tueddiadau perfformiad ar gyfer pob un o'r prif feysydd perfformiad a rhoddir enghreifftiau o berfformiad sy'n gwella ac sy'n dirywio. Yn yr enghreifftiau canlynol mae:

◆ yn dangos perfformiad sy'n gwella; ac mae
■ yn dangos perfformiad sy'n dirywio

## Iechyd Corfforaethol

O gyfanswm o 27 dangosydd yn y categori hwn, mae 12 wedi gwella ac mae 11 wedi aros yr un peth gydag 1 ohonynt yn cyflawni'r perfformiad gorau a 4 yn dangos dirywiad o ran perfformiad.

### Enghreifftiau:

◆ Mae canran treth y cyngor a gasglwyd wedi dangos gwelliant graddol o 93.92% yn 2001/2 i 95.23% yn 2002/03 ac yna i 95.63% yn 2003/04. Yn yr un modd, mae casglu trethi annomestig wedi gwella hefyd.

◆ Mae ymddeoliadau o ganlyniad i iechyd gwael fel canran o gyfanswm y gweithlu wedi dangos gwelliant amlwg gyda'r ganran wedi haneru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf.

◆ Mae canran y menywod sydd mewn swyddi uwch reolaeth wedi dangos dirywiad o 16.7% yn 2001/02, 15.6% yn 2002/03 ac i lawr unwaith eto i 14.7% yn 2003/04.

■ Mae nifer y diwrnodau gwaith/shifftiau a gollwyd o ganlyniad i absenoldeb salwch wedi cynyddu o 10.3 diwrnod yn 2002/03 i 12.6 diwrnod yn 2003/04.

## Addysg

Mae tri chwarter o'r dangosyddion (23 o 36) yn dangos gwelliant gyda 5 yn aros yr un peth (y mae 1 ohonynt eisoes yn cyflawni'r perfformiad gorau posib).

Mae 8 dangosydd yn dirywio.

**Enghreifftiau:**

- ◆ Mae canran y dosbarthiadau ysgol gynradd sy'n cynnwys mwy na 30 disgybl wedi gostwng. Bellach y canrannau yw 1.6% a 3.7% sy'n welliant amlwg o'r flwyddyn flaenorol (6.9% a 18.25%).
- ◆ Mae canran y plant 11 oed sy'n cyflawni Lefel 4 neu'n uwch ym mhrofion Cyfnod Allweddol 2 y Cwricwlwm Cenedlaethol mewn Mathemateg, Saesneg, Cymraeg (iaith gyntaf) a Gwyddoniaeth wedi cynyddu o ffigurau'r flwyddyn flaenorol.
- ◆ Yn yr un modd, gwelwyd gwelliant o ran canran y plant 14 oed sy'n cyflawni Lefel 5 neu'n uwch ym mhrofion Cyfnod Allweddol 5 y Cwricwlwm Cenedlaethol.
- ■ Mae gostyngiad bach iawn o ran cyfartaledd sgôr pwyntiau TGAU/GNVQ plant 15/16 oed o 37 yn 2002/03 i 36 yn 2003/04.

## Y Gwasanaethau Cymdeithasol

O gyfanswm o 22 dangosydd, mae tri chwarter (17) ohonynt yn dangos gwelliant o'r llynedd tra bo'r 5 sy'n weddill wedi dirywio.

**Enghreifftiau:**

- ◆ Canran y bobl ifanc sy'n derbyn gofal y mae ganddynt gynllun gofal yw 100% sy'n welliant o 80%, sef ffigur y llynedd, ac mae canran y lleoliadau cyntaf sy'n dechrau gyda chynllun gofal ar waith wedi mwy na dyblu o 30% i 68.5% ers y llynedd.
- ◆ Mae cyfradd y bobl hŷn sy'n cael cymorth i fyw gartref (fesul 1000 o'r boblogaeth 65 oed neu drosodd) wedi cynyddu o 131.58 i 169.14 yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Yn yr un modd, gwnaed gwelliannau i'r oedolion hynny dan 65 oed y mae ganddynt broblemau iechyd meddwl — mae nifer y bobl sy'n cael cymorth i fyw gartref wedi dyblu o 2.56 yn 2002/03 i 5.67 yn 2003/04.
- ■ Mae'r perfformiad o ran cymwysterau addysgol plant sy'n derbyn gofal gan yr awdurdod wedi dirywio. Gostyngodd canran y bobl ifanc sy'n gadael gofal yn 16 oed neu drosodd gydag un neu fwy TGAU (neu GNVQ) o 52.63% yn 2002/03 i 36.36% yn 2003/04, a gostyngodd canran y rheiny sy'n gadael gyda dau TGAU neu fwy hefyd o 42.11% i 27.27% yn ystod yr un cyfnod. Gall un person ifanc wneud gwahaniaeth mawr i ganrannau'r flwyddyn, oherwydd nifer fach o bobl ifanc sy'n gadael gofal bob blwyddyn.

## Tai

Mae 9 o'r 15 dangosydd yn dangos gwell perfformiad gyda 3 yn unig yn dirywio, arhosodd 1 dangosydd yr un peth ac ni ellir gwella 2 ohonynt.

**Enghreifftiau:**

- ◆ Mae'r rhent sy'n cael ei golli fesul tenant trwy anheddau gwag wedi gostwng yn sylweddol o £174.74 i £107.96 sy'n dangos gwelliant mawr o ran rheoli eiddo gwag.
- ◆ Mae canran yr atgyweiriadau "brys" a gwblhawyd o fewn yr amser targed wedi cynyddu o 65.2% i 77.7%, ac mae'r amser ar gyfartaledd a gymerwyd i wneud atgyweiriadau "nad ydynt yn frys" hefyd wedi gwella o 34 diwrnod i 27.3 diwrnod.
- ◆ Yr amser ailosod ar gyfartaledd ar gyfer anheddau'r awdurdod lleol oedd 151 yn 2002/03, a ostyngodd i 143.5 yn 2003/04, sy'n dangos gwell perfformiad.
- ■ Mae'r dangosydd perfformiad a ddefnyddir i ddangos effeithlonrwydd ynni yn dangos dirywiad o ran perfformiad gyda'r raddfa'n gostwng o 54 yn 2002/03 i 49 yn 2003/04.

## Gwasanaethau Amgylcheddol

### *Cludiant a Pheirianneg*

Mae 15 o'r 21 dangosydd wedi dangos gwelliant, tra bo 6 wedi dirywio.

**Mae enghreifftiau'n cynnwys:**

- ◆ Mae 7 o'r 10 dangosydd diogelwch ffordd wedi gwella, yn enwedig ar gyfer cerddwyr: lladdwyd neu anafwyd 8.1 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn ddifrifol o'i gymharu â 13.0 y llynedd.
- ■ Dirywiodd lampau stryd nad ydynt yn gweithio o 1.44% i 1.55%.

### *Diogelu'r Amgylchedd*

Mae 5 o'r 15 dangosydd wedi dangos gwelliant gyda 6 yn dirywio a 4 yn aros yr un peth.

**Enghreifftiau:**

- ◆ Mae canran y boblogaeth sy'n cael gwasanaeth ailgylchu ymyl y ffordd wedi gwella'n sylweddol o 49% yn 2002/03 i 92% yn 2003/04. Mae canran y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu neu ei ailddefnyddio wedi gwella hefyd o 9.1% yn 2002/03 i 11.38% yn 2003/04.
- ◆ Mae canran y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei gladdu wedi dangos gwelliant graddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf gan ostwng o 90.20% yn 2000/01 i 89.59% yn ystod y flwyddyn nesaf, 84.44% yn ystod y flwyddyn ganlynol ac 80.24% yn ystod 2003/04.

- Mae nifer y casgliadau a gollwyd fesul 100,000 o gasgliadau gwastraff cartref wedi cynyddu o ffigur 2002/03 sef 56 i 66 yn 2003/04 sy'n dangos dirywiad o ran perfformiad. Mae ffactorau fel eira trwm, fel y profwyd y gaeaf diwethaf, yn effeithio ar y dangosydd hwn.

### *Cynllunio*

Mae dros hanner y dangosyddion yn dangos perfformiad sefydlog (6 o 10) gyda 2 yn gwella a 2 yn dirywio.

**Enghreifftiau:**

- Mae canran y ceisiadau cynllunio wedi gwella o 51.3% yn 2002/03 i 65.8% yn 2003/04.
- Mae canran y chwiliadau safonol a gynhaliwyd o fewn 10 niwrnod gwaith wedi dangos gwelliant graddol yn ystod y pedair blynedd diwethaf — 90.8%, 93.0%, 93.8% ac yna 99.8% yn 2003/04.
- Mae nifer yr ymadawiadau o'r cynllun datblygu a fabwysiadwyd fel canran o gyfanswm y caniatâd wedi cynyddu o 0.16% yn 2002/03 i 0.29% yn 2003/04.

### *Iechyd Amgylcheddol*

Mae 4 o'r 8 dangosydd eisoes yn cyflawni'r perfformiad gorau ac mae 1 dangosydd arall wedi gwella eleni. Mae 1 wedi aros yr un peth tra bo 2 yn dirywio o ran perfformiad.

**Enghreifftiau:**

- Canran yr archwiliadau o adeiladau bwyd a ddylai fod wedi cael eu cynnal ar gyfer “adeiladau risg uchel” ac adeiladau "eraill" yw 100%.

## Gwasanaethau Diwylliannol a Thwristiaeth

Mae 6 o'r 8 dangosydd wedi dangos gwell perfformiad gyda 2 yn dirywio.

**Enghreifftiau:**

- Mae nifer y disgyblion sy'n ymweld ag amgueddfeydd ac orielau mewn grwpiau ysgol a drefnwyd wedi cynyddu o 35,568 yn 2002/03 i 37,681 yn 2003/04.
- Mae gwariant gan ymwelwyr ag Abertawe wedi cynyddu i £187.1m.

## Budd-dâl Tai a Budd-dâl Treth y Cyngor

Mae tri o'r pedwar dangosydd yn dangos bod perfformiad yn gwella gydag un yn unig yn dangos dirywiad o ran perfformiad.

**Enghreifftiau:**

- Mae'r amser ar gyfartaledd ar gyfer prosesu hawliadau newydd a newidiadau o ran amgylchiadau wedi gwella — hawliadau newydd o 49.9 diwrnod yn 2002/03 i 45.2 diwrnod yn 2003/04 a newidiadau o ran amgylchiadau i lawr o 11.6 i 8.6 yn 2003/04

## Troseddau

Mae 4 o'r 9 dangosydd wedi gwella, gyda 4 yn dirywio ac 1 yn aros yr un peth.

**Enghreifftiau:**

- Mae troseddau sy'n ymwneud â cherbydau wedi gostwng o 34.4 i 29.5 fesul 1000 o'r boblogaeth.
- Mae pob un o'r 4 gwahanol gategori o droseddau treisiol wedi cynyddu, gyda'r cynnydd mwyaf o ran troseddau treisgar a gyflawnwyd mewn man cyhoeddus (15.23 fesul 1000 o'r boblogaeth o'i gymharu â 13.23 y llynedd).


Ar hyn o bryd nid yw'n bosib cymharu canlyniadau perfformiad Abertawe y llynedd ag awdurdodau eraill oherwydd nid yw eu ffigurau ar gael eto. Ond, gellir cael arweiniad trwy ddefnyddio eu canlyniadau ar gyfer y flwyddyn cyn y llynedd, er bod angen ystyried y gymhariaeth hon yn ofalus. Dangosir cymhariaeth â dadansoddiad tebyg a gynhaliwyd yn y flwyddyn flaenorol hefyd, er unwaith eto ni ellir cymharu'n uniongyrchol am fod grŵp o ddangosyddion y flwyddyn flaenorol yn llai.

### Perfformiad Abertawe o'i gymharu ag Awdurdodau Unedol Lloegr ac Awdurdodau Lleol Cymru

| Chwartel Uchaf (4 seren) | Gwell na'r canolrif (3 seren) | Gwaeth na'r canolrif (2 seren) | Chwartel Isaf (1 seren) | CYFANSWM |
|---|---|---|---|---|
| 30 | 17 | 25 37 | 109 | |
| 28% | 15% | 23% | 34% | 100% |
| **Y flwyddyn flaenorol (2002/3)** | | | | |
| 30% | 21% | 49% | 91 | |

Er bod perfformiad yn gwella o ran 60% o'r dangosyddion, fel y disgrifiwyd yn gynharach, nid yw'r dadansoddiad cymharol arweiniol hwn yn dangos arwyddion o gynnydd wrth wella ein perfformiad o'i gymharu ag eraill.

Mae'r graff isod yn dangos y dadansoddiad cymhariaeth perfformiad yn ôl maes gwasanaeth:




Mae'r meysydd y mae Abertawe yn rhagori ynddynt o'i chymharu â Chynghorau eraill yn cynnwys:

- Dileu cwynion i'r Ombwdsmon
- Addysg yng Nghyfnod Allweddol 2
- Maint dosbarthiadau cynradd
- Datganiadau anghenion addysgol arbennig
- Osgoi gwahardd disgyblion yn barhaol
- Helpu pobl hŷn i fyw gartref ac asesu eu hanghenion
- Gwneud anheddau'r sector preifat yn addas i fyw ynddynt neu eu dymchwel
- Cwblhau atgyweiriadau brys i dai Cyngor yn gyflym
- Ailgylchu a chompostio gwastraff preswylwyr a masnach
- Archwilio adeiladau bwyd yn unol ag amserlenni a gynlluniwyd
- Ymweliadau ysgol ag amgueddfeydd ac orielau
- Cywirdeb prosesu hawliadau budd-dâl

Mae'r meysydd y mae angen i Abertawe ganolbwyntio arnynt i wella perfformiad o'i chymharu â Chynghorau eraill yn cynnwys:

- Talu anfonebau o fewn 30 diwrnod
- Pobl ifanc 15-16 oed sy'n gadael yr ysgol heb gymhwyster cydnabyddedig
- Presenoldeb mewn ysgolion uwchradd
- Cymwysterau addysgol a gyflawnir gan blant sy'n derbyn gofal
- Neilltuo gweithiwr cymdeithasol ar gyfer plant mewn angen
- Yr amser a gymerir i ailosod tai Cyngor
- Goleuadau stryd diffygiol
- Rhwyddineb mynediad i lwybrau troed a hawliau tramwy
- Ymweliadau â phyllau nofio
- Troseddau treisgar, byrgleriaeth a throseddau sy'n ymwneud â cherbydau
- Gwella nifer y diwrnodau/shifftiau sy'n cael eu colli oherwydd salwch

Mae fframwaith rheoli perfformiad y Cyngor yn canolbwyntio ar berfformiad gwael a gwella perfformiad trwy werthusiadau ac adolygiadau unigol a chylchredau monitro ac adrodd am berfformiad gan gynnwys y cyfarfodydd monitro cyllid a pherfformiad misol ac adroddiadau monitro chwarterol a blynyddol.

# *Blaenoriaethau Corfforaethol*

Mae'r Cynllun Gwella hwn yn ymwneud â newidiadau a gwelliannau; nid yw'n rhestru pob un o'r gweithgareddau y mae'r Cyngor yn ymgymryd â hwy. Mae'r 20 Blaenoriaeth Gorfforaethol a nodwyd yn y Cynllun hwn yn cynrychioli'r blaenoriaethau rheolaeth a gwasanaeth pwysicaf y mae'r Cyngor yn ystyried bod angen cyfeirio ymdrechion atynt i gyflawni newidiadau a pherfformiad, gan gynnwys y rheiny sy'n destun Cytundebau Polisi gyda'r Cynulliad Cenedlaethol. Bydd y rhain yn ffocws ar gyfer y Cabinet a'r Tîm Rheolaeth Gorfforaethol gyda phob uned wasanaeth ar draws y Cyngor yn darparu cefnogaeth a mewnbwn yn ôl yr angen.

Mae'r adolygiad o Flaenoriaethau Corfforaethol y Cyngor wedi creu pum blaenoriaeth newydd, cadw'r blaenoriaethau gwasanaeth presennol (A-J) a rhesymoli'r blaenoriaethau rheoli ychydig (L-P). Dyma'r pum Blaenoriaeth Gorfforaethol newydd:

Byddwn yn:

— gwella'r cyfleoedd ar gyfer plant a phobl ifanc,
— hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymreig yn Abertawe,
— gwella golwg ac awyrgylch canol ein dinas a'r ardaloedd siopa lleol,
— sicrhau bod ein holl bolisïau a'n gweithrediadau'n sensitif i'r amgylchedd ac yn darparu dyfodol cynaliadwy ar gyfer ein dinas, a
— chynnal ein materion yn agored ac yn onest, cryfhau atebolrwydd democrataidd a gwella cysylltiadau â'r gymuned.

Datblygwyd cynigion y Cyngor ar gyfer gweithredu a chynnydd yn ystod y naw mis diwethaf gan ddefnyddio strwythur yr 20 Blaenoriaeth Gorfforaethol (A-P) a gymeradwywyd fis Tachwedd diwethaf. Nodir y rhain yn y tudalennau canlynol. Bydd mwy o waith yn cael ei wneud i ddatblygu'r camau gweithredu a'r mesurau ar gyfer y Blaenoriaethau Corfforaethol newydd yn ystod y misoedd nesaf fel rhan o brosesau cynllunio a chyllidebu corfforaethol a gwasanaeth y Cyngor.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol A* – Y Cynllun Cymunedol

Yn ôl yr ymgynghoriad â'r gymuned a buddiolwyr, dyma'r themâu allweddol pwysig ar gyfer y Cynllun Cymunedol

- Diogelwch Cymunedol
- Yr Amgylchedd
- Dysgu
- Ffyniant
- Iechyd a Lles

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Arwain y ffordd wrth ddatblygu **Cynllun Cymunedol** cyffredinol ar gyfer Abertawe sy'n canolbwyntio ar gyflawni gweledigaeth a rennir

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Gofyn am farn trigolion lleol, busnesau a'n partneriaid am Abertawe. Yn arbennig, roeddem am wybod beth roedd pobl am ei gael ar gyfer Abertawe yn y dyfodol.
- Nodi pum prif thema y bydd y broses o roi'r Cynllun Cymunedol ar waith a gweithio mewn partneriaeth yn canolbwyntio arnynt.
- Sefydlu Partneriaeth Abertawe Gwell a Chynghrair Abertawe Gwell a fydd yn annog asiantaethau allweddol yn Abertawe i weithio gyda'i gilydd ar gyfer Abertawe gwell.
- Cynhyrchu drafft ymgynghorol y Cynllun Cymunedol cyntaf ar gyfer Abertawe a lansiwyd ym mis Mehefin 2004 gan Bartneriaeth Abertawe Gwell.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Hwyluso a chefnogi Partneriaeth Abertawe Gwell a Chynghrair Abertawe Gwell i gynnwys holl bartneriaid a sefydliadau perthnasol y sectorau cyhoeddus, preifat, gwirfoddol a chymunedol yn y broses Cynllunio Cymunedol.
- Cefnogi, ac arwain lle y bo'n briodol, gweithio mewn partneriaeth ym mhum maes thematig Iechyd a Lles, Dysgu, Ffyniant, yr Amgylchedd a Diogelwch Cymunedol.
- Cefnogi'r broses o gyflawni'r Weledigaeth a rennir ar gyfer Abertawe trwy sicrhau bod gwasanaethau, cynlluniau a strategaethau'r Cyngor yn gyson â'r Cynllun Cymunedol ac yn helpu i'w roi ar waith.
- Hyrwyddo a chefnogi pawb sy'n gweithio ar gyfer Abertawe Gwell trwy ddinasyddiaeth ymarferol, cymunedau ymarferol a chyfraniad y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Hwyluso pedwar digwyddiad Cynghrair Abertawe Gwell a phedwar cyfarfod Partneriaeth Abertawe Gwell bob blwyddyn i sicrhau gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol a chysylltiad â'r broses gynllunio.
- Adolygu a diweddaru'r cynllun ar gyfer 2005.
- Bydd y Cynllun Cymunedol yn diffinio uchelgeisiau, nodau a dangosyddion ym mhob un o feysydd thematig Iechyd a Lles, Dysgu, Ffyniant, yr Amgylchedd a Diogelwch Cymunedol. Bydd y Cyngor yn adolygu ei dargedau i sicrhau cysondeb â'r Cynllun Cymunedol erbyn Mawrth 2005.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol B* – Canol y Ddinas

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl:

- Am weld bywyd ac atyniadau yng Nghanol y Ddinas
- Yn meddwl y gellid gwella golwg gyffredinol Canol y Ddinas
- Yn pryderu am droseddau ac yn enwedig ofn troseddau wrth ymweld â Chanol y Ddinas

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn llwyddo i adfywio **Canol y Ddinas** gan ddefnyddio ymagwedd hyblyg sy'n ymatebol i'r farchnad

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Adnewyddu lonydd bysus Canol y Ddinas a chychwyn Cyfnewidfa Gludiant newydd yng Ngorsaf y Stryd Fawr
- Dechrau adeiladu Amgueddfa Genedlaethol Cymru
- Derbyn cymeradwyaeth y llywodraeth i'r unig gynllun peilot Rhanbarth Gwella Busnes Canol y Ddinas yng Nghymru
- Gwella a chynyddu nifer y camerâu CCTV (gan gynnwys gwasanaeth teithiol) ar draws y Ddinas
- Cyflawni statws "Maes Parcio Diogel" ar gyfer 8 maes parcio a lleihau troseddau sy'n ymwneud â cheir mewn meysydd parcio a reolir gan y Cyngor

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Adfywio Canol y Ddinas trwy Bartneriaeth Canol y Ddinas effeithiol
- Darparu gwasanaeth Rheolaeth Canol y Ddinas effeithiol a sicrhau cefnogaeth ar gyfer rhoi cynllun peilot Rhanbarth Gwella Busnes ar waith yng Nghanol y Ddinas
- Darparu a gwella cyfleusterau a gwasanaethau yng Nghanol y Ddinas, gan gynnwys:
  — ailddatblygu Gorsaf Fysus y Cwadrant
  — cwblhau cynllun Cyfnewidfa Gludiant y Stryd Fawr
  — gwella'r gwasanaeth glanhau
  — cynyddu nifer y camerâu CCTV

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Cynyddu % y trigolion sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yng Nghanol y Ddinas o 29% yn 2002/03 i 40% yn 2004/05
- Adolygu Cynllun Gweithredu Canol y Ddinas a'r targedau erbyn diwedd Mawrth bob blwyddyn
- Cyrraedd y targedau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu Canol y Ddinas
- Cwblhau derbyn y Cynllun Datblygu Unedol, gan gynnwys fframwaith polisi a chynllunio a ddiweddarwyd ar gyfer Canol y Ddinas, erbyn diwedd 2006
- Cynyddu % y bobl sy'n fodlon ar safonau glendid Canol y Ddinas i 60% yn 2004/05

## *Blaenoriaeth Gorfforaethol C* – Prosiectau Datblygu Mawr

Yn ôl ymgynghoriad â’r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl:

- Am gael mwy o swyddi a swyddi o ansawdd gwell yn Abertawe
- Am i Abertawe fod yn gyngor pendant a fyddai’n cwblhau ac yn dilyn cynlluniau i’r pen
- Am i Abertawe fod yn ddinas lân, ddiogel a ffyniannus sy’n ymdrechu i wella’n barhaus
- Am i Abertawe fod yn ddinas sydd â rhagolygon da, dyluniad da ac adnoddau sy’n cael eu defnyddio
- Am i Abertawe fod yn ganolfan ranbarthol ar gyfer siopa a diwydiant uwch-dechnoleg

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Cyflwyno **prosiectau datblygu mawr** gan ddefnyddio ymagwedd a flaenoriaethwyd gyda’n partneriaid strategol

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Dechrau gweithio ar y Datblygiadau Techniwm newydd fel rhan o adfywio’r dociau
- Agor unig bwll nofio maint Olympaidd Cymru
- Dechrau datblygu Stadiwm newydd y Graig Wen fel rhan o ddatblygiad mawr yn y Morfa
- Gweithio gyda’n partneriaid SA1 i greu cyfleoedd cyflogaeth yn sgîl adfywio’r dociau.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Hyrwyddo adfywio Abertawe trwy lunio a gweithredu strategaethau, prosiectau a rhaglenni datblygu cynaliadwy a dichonadwy mewn cydweithrediad â’n partneriaid er mwyn sicrhau datblygiadau mawr, mewnfuddsoddi a chreu swyddi ar gyfer Abertawe, gan gynnwys:
  — SA1 Glannau Abertawe, Stadiwm y Graig Wen, Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, Cei’r Castell
- Sicrhau bod holl wasanaethau perthnasol y Cyngor yn cefnogi cyflwyno prosiectau datblygu mawr, gan gynnwys darparu isadeiledd, manteisio ar gyllid allanol i’r eithaf a marchnata a hyrwyddo Abertawe a chyfleoedd i ddatblygu tir, eiddo a buddsoddi.

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cyflawni cerrig milltir prosiectau y cytunwyd arnynt fel rhan o Fframwaith Rheoli Prosiectau a Rhaglenni’r Cyngor a monitro cynnydd trwy’r Tîm Gweithredu Corfforaethol Datblygiad
- Cytuno ar amrediad fframwaith buddsoddi 5 mlynedd gydag Awdurdod Datblygu Cymru erbyn diwedd 2004
- Cyrraedd ffigur targed o £45m o fewnfuddsoddi a 1400 o swyddi newydd yn 2004/05
- Cwblhau 70% o’r prosiectau yn brydlon ac o fewn y gyllideb yn 2004/05 a chynyddu hyn i 90% yn 2007/08
- Cytuno ar raglen gwaredu tir ac eiddo ar gyfer 2004/5 erbyn Gorffennaf 2004 ac ar gyfer 2005/6 erbyn Mawrth 2005

## *Blaenoriaeth Gorfforaethol Ch* – Adfywio Cymunedol

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr:

- Yn gyffredinol mae pobl yn hoffi'r gymdogaeth y maent yn byw ynddi ac mae llawer ohonoch yn teimlo'n rhan o'r gymuned
- Nid yw pobl yn teimlo y gallant ddylanwadu'n unigol ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu cymdogaeth
- Mae pobl am gael mwy o gyfleusterau i bobl ifanc

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn arwain y ffordd wrth **adfywio cymunedau lleol** yn Abertawe

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Sefydlu'r Uned Adfywio Cymunedol i gefnogi adfywio cymunedau ar draws Abertawe — yr unig Uned o'i bath yng Nghymru
- Datblygu a chefnogi partneriaeth gymunedol ym Monymaen, Blaenymaes/Portmead/Penplas, Townhill/Mayhill, Clydach a Phenlan
- Helpu i sicrhau £3.3 miliwn o gyllid ychwanegol ar gyfer mentrau adfywio cymunedol lleol ers 2002
- Cyflwyno bws "Adnodd Gweithgareddau Allgymorth Abertawe" gyda gweithgareddau ar gyfer pobl ifanc sydd wedi diflasu yn yr ardal
- Sefydlu partneriaethau gyda Phlant a Phobl Ifanc a datblygu Cynllun Plant a Phobl Ifanc trosgynnol.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

Sicrhau bod holl unedau gwasanaeth perthnasol y Cyngor yn cyfrannu at adfywio cymunedau lleol, gan gynnwys:

- gwella ansawdd a hygyrchedd yr amgylchedd naturiol
- darparu lleoedd a chyfleusterau diogel, hygyrch, a gynhelir yn addas ac sy'n cynnwys offer addas (e.e. Clybiau Ieuenctid, Canolfannau Preswyl, Canolfannau Gwybodaeth, Lleoedd Chwarae)
- sicrhau amrywiaeth priodol o gyfleoedd hyfforddiant, datblygiad a chyflogaeth (e.e. Gwasanaeth Sgiliau Abertawe, Prentisiaethau Modern, Cefnogi Busnesau Cymunedol)
- cefnogi a gweithio gydag asiantaethau cymunedol i hyrwyddo diogelwch a diogeledd.

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Cynyddu nifer y grwpiau a gefnogir i 126 erbyn diwedd 2007
- Lleihau'r lefel amddifadedd a fesurir yn ôl % y boblogaeth sy'n byw mewn wardiau sydd ymhlith y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru
- Cynnal lefel uchel o fodlonrwydd cwsmeriaid o ran llyfrgelloedd
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n defnyddio canolfannau hamdden cymunedol i 110,000 erbyn 2007/08
- Cynyddu defnyddwyr canolfannau cymunedol i 517,000 erbyn 2007/08
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sydd mewn cysylltiad â'r Gwasanaeth Ieuenctid

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol D* – Adfywio Economaidd

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl:

- Am i Abertawe fod yn ddinas ffyniannus sy'n
- Profi twf o ran busnesau
- Annog cychwyn busnesau newydd
- Denu buddsoddiad; gan hyrwyddo'r ardal i fuddsoddwyr ac ymwelwyr
- Darparu lleoliadau busnes hygyrch o safon uchel

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn hyrwyddo mwy o ffyniant ar gyfer Abertawe trwy strategaeth **datblygiad economaidd** integredig

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Mae Strategaeth Adfywio Economaidd ar gyfer Abertawe yn cael ei datblygu ar hyn o bryd dan nawdd Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru
- Darparu cyngor, cymorth a chefnogaeth o safon dda i'r rheiny sydd am gychwyn eu busnes eu hunain
- Agor Canolfan Adnoddau Cyflogaeth arall
- Sicrhau £3.1 miliwn o arian Amcan Un i barhau â'r Farchnad Lafur Ganolradd.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Paratoi Strategaeth Adfywio Economaidd ar gyfer Abertawe mewn cydweithrediad â'n partneriaid yn Fforwm Economaidd De-orllewin Cymru
- Datblygu Partneriaeth Economaidd ar gyfer Abertawe i ddarparu'r bartneriaeth arweiniol ar gyfer adfywio Abertawe yn economaidd a chyflwyno amcanion y Cynllun Cymunedol ar gyfer ffyniant Abertawe
- Hyrwyddo a sicrhau datblygiad economaidd ac adfywiad cynaliadwy Abertawe gyda'n partneriaid

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Cytuno a derbyn astudiaeth gychwynnol ar gyfer y Strategaeth Datblygiad Economaidd a chytuno ar gylch gorchwyl ar gyfer Partneriaeth Economaidd erbyn diwedd 2004
- Cynyddu nifer y busnesau newydd sy'n cael cefnogaeth gan y Ganolfan Fusnes i 180 erbyn Mawrth 2005
- Cwblhau Cyfnod 1 a 2 Gorseinon erbyn Awst 2005 a Chyfnod 3 a 4 erbyn Awst 2006, Cyfnod 1 Clydach erbyn Mehefin 2004 a Chyfnod 2 erbyn Mawrth 2005, Cyfnod 1 Gwaith Copr yr Hafod erbyn Hydref 2006
- Cynyddu cyfraddau goroesi busnesau bach ar ôl 2 flynedd gyda chymorth Cefnogi Busnesau i 85% erbyn diwedd 2008
- Cynyddu nifer yr ymwelwyr a'r gwariant gan ymwelwyr i 3.47 miliwn a £202m erbyn 2007/2008

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol Dd* – Dyfodol Abertawe

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl am i Abertawe fod yn:

- ddinas sy'n gadael ei hôl ar Gymru yn hytrach na dinas sy'n adweithio i'r hyn y mae Cymru yn ei wneud
- dinas sy'n cyflawni drwy wneud defnydd mwy effeithlon o'r adnoddau naturiol arbennig sydd gennym eisoes, parhau i ddatblygu'r ardal fel cyrchfan i dwristiaid, canolfan ragoriaeth ar gyfer chwaraeon, diwylliant a hamdden, a chanolfan ranbarthol ar gyfer siopa a diwydiant uwch-dechnoleg, mewn amgylchedd diogel, glân a deniadol
- dinas sy'n edrych ac sy'n teimlo'n fyw, gyda rhagolygon da, dyluniad da ac adnoddau sy'n cael eu defnyddio

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn hyrwyddo Abertawe yn fwy effeithiol trwy **Ddyfodol Abertawe**

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Sefydlu corff Dyfodol Abertawe a hyrwyddo a marchnata Dinas a Sir Abertawe a'r rhanbarth yn yr ystyr ehangaf
- Sefydlu strategaeth farchnata sy'n gysylltiedig â digwyddiadau arbennig ac sy'n cysylltu cyfleoedd marchnata lleol â mentrau cenedlaethol / rhyngwladol a arweinir gan asiantaethau Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Arwain a chydlynu gweithgareddau, cyfleusterau a digwyddiadau marchnata a hyrwyddol integredig yn Abertawe a mannau eraill yn y DU a thramor
- Sicrhau integreiddiad agosaf bosib Dyfodol Abertawe a gweithgareddau marchnata, digwyddiadau a hyrwyddol y Cyngor
- Sicrhau bod hyrwyddo Abertawe yn effeithiol yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygiad economaidd, prosiectau mawr ac adfywio

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Sefydlu corff Dyfodol Abertawe yn ystod 2004
- Paratoi cynllun busnes a strategaeth farchnata erbyn Gorffennaf 2004
- O fis Gorffennaf 2004 cynnal gweithgareddau, cyfleusterau a digwyddiadau marchnata a hyrwyddol bob blwyddyn yn unol â'r targedau a nodwyd yn y cynllun busnes a'r strategaeth farchnata gymeradwy.

## *Blaenoriaeth Gorfforaethol E* – Gwasanaeth@Abertawe

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr:

- Mae pobl am gael gwell mynediad i Wasanaethau'r Cyngor y tu allan i oriau swyddfa arferol
- Mae'n well gan bobl gysylltu â ni dros y ffôn, ond rydych hefyd am ddefnyddio'r Rhyngrwyd i gael mynediad i wasanaethau'r Cyngor a thalu amdanynt
- Mae pobl am gael atebion a datrysiadau cyflymach i gwestiynau a phroblemau
- Mae pobl am wybod sut i gwyno am wasanaethau
- Ar y cyfan, mae pobl yn fodlon ar safonau gwasanaeth cyffredinol y Cyngor

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn trawsnewid mynediad i wasanaethau trwy'r fenter **Gwasanaeth@Abertawe**

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Gwella mynediad i'r Rhyngrwyd i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau rhyngweithiol
- Sefydlu Canolfannau Galwadau yn yr Amgylchedd a Iechyd a Budd-daliadau Tai i gyflymu'r ymateb
- Sefydlu un dderbynfa ar gyfer Cludiant a Pheirianneg yn Neuadd y Sir
- Lansio'r fenter Gwasanaeth@Abertawe
- Gweithio gyda'n partneriaid yn y sector preifat i ddatblygu'r cynllun prosiect sy'n angenrheidiol i roi'r newid hwn ar waith

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Gwella mynediad cwsmeriaid i wasanaethau'r Cyngor drwy ddatblygu gwasanaethau cyswllt cwsmeriaid newydd sy'n cynnwys Canolfan Alwadau gorfforaethol, Canolfan Gyswllt Canol y Ddinas, Canolfannau Cyswllt yn y gymuned a gwasanaeth rhyngrwyd hollol ryngweithiol
- Darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid y Cyngor drwy ddelio â'u hangen am wasanaeth yn y pwynt cyswllt cyntaf, gwella gwasanaethau swyddfa gefn a chynyddu lefel bodlonrwydd cwsmeriaid
- Cynhyrchu gwasanaethau mwy effeithiol ac effeithlon i gyflwyno enillion cynhyrchedd ac effeithlonrwydd adnoddau sylweddol er mwyn rhyddhau adnoddau i'w hailfuddsoddi mewn agweddau eraill ar wasanaethau'r Cyngor

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Canolfan alwadau a chanolfan gyswllt canol y ddinas ar waith yn gynnar yn 2006 a phob canolfan gyswllt yn y gymuned erbyn 2008;
- Estyn oriau agor yn ystod yr wythnos a'r penwythnos o 2006;
- Datrys o leiaf 50% o'r ymholiadau yn y 'pwynt cyswllt cyntaf' erbyn 2006 gan gynyddu i 80% yn y ganolfan alwadau a 70% yn y canolfannau cyswllt erbyn 2008;
- Cyflwyno 50% o'r gwasanaethau (y gellir eu 'e-alluogi') trwy'r wefan erbyn 2006 a 90% erbyn 2008;
- Sicrhau bod bodlonrwydd cwsmeriaid ar y gwasanaethau a ddarperir gan Gwasanaeth@Abertawe yn 50% o leiaf erbyn 2006 ac yn 80% erbyn 2008;
- Gwella cyflwyno gwasanaethau trwy brosesau a symleiddiwyd a'r defnydd o dechnoleg a chyflawni arbedion effeithlonrwydd blynyddol o £3.6 miliwn erbyn 2008.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol F* – Perfformiad Ysgolion

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl:

- Yn disgwyl i safonau addysg godi yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3 a TGAU
- Am i ysgolion gael digon o offer i gyfranogi'n llawn yn yr "Oes Wybodaeth"

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn gwella **perfformiad ysgolion**

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Codi'r lefel cyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 2 a chynnal y lefel cyflawniad yng Nghyfnod Allweddol 3
- Bellach mae'r holl Ysgolion Uwchradd a'r Canolfannau Dysgu Gydol Oes mewn ysgolion wedi'u cysylltu â Band Eang trwy gysylltiad 100 mb
- 80% o'r Ysgolion Cynradd wedi'u cysylltu â Band Eang gyda chysylltiad lleiaf o 10mb.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Datblygu proffil pob ysgol ymhellach i nodi cryfderau a meysydd i'w gwella a chamau gweithredu gan bob ysgol a'r AALl
- Datblygu'r Gwasanaethau Effeithiolrwydd Ysgolion a Chynhwysiad i ddarparu cefnogaeth amserol a phriodol i ysgolion
- Datblygu'r Strategaeth Cefnogaeth a Hyfforddiant Effeithiolrwydd Llywodraethwyr a'i rhoi ar waith i wella rôl Llywodraethwyr wrth godi safonau
- Cefnogi Gwella Perfformiad, gan gynnwys gwella safon y gefnogaeth dechnegol ar gyfer TGCh mewn ysgolion

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Cynyddu presenoldeb mewn ysgolion uwchradd i 90.1% ac mewn ysgolion cynradd i 90.5% yn 2007/08
- Lleihau nifer y plant 15/16 oed sy'n gadael addysg amser llawn heb gymhwyster cydnabyddedig i 3.1% yn 2007/08
- Gwella'r % sy'n cyflawni 5 TGAU neu fwy ar raddau A*-C i 55% erbyn 2007/08
- Gwella % y plant 11 oed sy'n cyflawni lefel 4 neu'n uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 — a) mewn Mathemateg i 83% yn 2007/08, b) mewn Saesneg i 80% yn 2007/08, c) mewn Cymraeg i 80% yn 2007/08 ac ch) mewn Gwyddoniaeth i 85% yn 2007/08
- Gwella % y plant 14 oed sy'n cyflawni lefel 5 neu'n uwch yng Nghyfnod Allweddol 3 — a) mewn Mathemateg i 67% yn 2007/08, b) mewn Saesneg i 67% yn 2007/08, c) mewn Cymraeg i 80% yn 2007/08 ac ch) mewn Gwyddoniaeth i 69% yn 2007/08
- Lleihau nifer y disgyblion fesul 1000 sy'n cael eu gwahardd yn barhaol — a) mewn Ysgolion Cynradd i 0.2 erbyn 2007/08, b) mewn Ysgolion Uwchradd i 0.97 yn 2007/08 ac c) mewn Ysgolion Arbennig i 0 erbyn 2007/08
- 100% o'r disgyblion a waharddwyd yn barhaol yn mynychu mwy na 25 awr yr wythnos o hyfforddiant amgen erbyn 2007/08

## *Blaenoriaeth Gorfforaethol Ff* – Darpariaeth Ysgolion

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr:

- Mae angen i bobl gael cyfleusterau dysgu ac addysgol ar gyfer oedolion a phobl ifanc yn eu cymunedau

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn adolygu'r **ddarpariaeth ysgolion** gyffredinol

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Gweithio yn ôl y targed i gwblhau adeiladu 2 ysgol arall
- Agor ysgol Gynradd ac Uwchradd newydd ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Datblygu a chyflwyno Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion a Rheoli Asedau yn unol â thueddiadau cymdeithasol, galwadau demograffig a newidiadau blaenoriaeth rhieni
- Datblygu a rhoi fframwaith cynllunio effeithiol ar waith ar gyfer trefniadaeth ysgolion a gefnogir gan wybodaeth gywir am ddemograffeg a chyflwr pob agwedd ar adeiladau ysgol
- Datblygu a chyflwyno rhaglen trefniadaeth ysgolion ar gyfer 2004 i 2008 sy'n:
  - — darparu strategaeth gydlynol ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg
  - — sicrhau bod adnoddau'n cael eu dosbarthu'n fwy effeithiol a gwella cost-effeithiolrwydd y sylfaen asedau
  - — cyfrannu tuag at nod Llywodraeth Cynulliad Cymru o gael 'ysgolion sy'n addas i'r diben' erbyn 2010
- Adolygu'r fformiwla ar gyfer dirprwyo cyllid i ysgolion a rhoi unrhyw newidiadau ar waith er mwyn targedu adnoddau'n well
- Sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau eraill y Cyngor yn cefnogi'r adolygiad o ddarpariaeth gyffredinol ysgolion, gan gynnwys adnoddau ariannol.

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cwblhau Cynlluniau a Rhaglen Trefniadaeth Ysgolion a Rheoli Asedau erbyn diwedd 2004
- Datblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion ar gyfer 2004 i 2008 erbyn canol 2004
- Dim dosbarthiadau cynradd gyda mwy na 30 disgybl (heblaw am eithriadau a ganiateir)
- Lleihau lleoedd gwag mewn ysgolion cynradd Saesneg gan 600 o leoedd ac mewn ysgolion uwchradd gan 1,000 o leoedd erbyn 2008
- Cwblhau'r adolygiad fformiwla a rhoi newidiadau ar waith o fis Ebrill 2006.

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol G* – Pobl Anabl a Phobl Hŷn

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl:

- Am gael cefnogaeth i fyw yn eu cartrefi eu hunain pan fyddant yn hŷn
- Am gael mwy o wybodaeth am wasanaethau Cymdeithasol a Gofal y gallai fod eu hangen arnyn nhw neu eu perthnasau
- Yn pryderu am ddiogelwch cymunedol — yn enwedig yr amgylchedd adeiledig
- Am i bobl hŷn gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau
- Am gael cludiant hygyrch ac integredig

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn cefnogi **pobl anabl a phobl hŷn** i fyw bywydau annibynnol

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Sefydlwyd gwasanaeth 'derbyn' newydd i wella a chyflymu mynediad i wasanaethau i'r henoed a phobl anabl
- Mae'r cyhoedd yn cael gwell gwybodaeth am wasanaethau Gofal Cymdeithasol
- Gwrando ar farn pobl hŷn trwy 'Lleisiwch eich Barn'
- Mae'r fenter Cefnogi Pobl wedi datblygu llety i gefnogi pobl i fyw mor annibynnol â phosib yn y gymuned
- Mae Grwpiau Datblygu Defnyddwyr Gwasanaeth mewn gwasanaethau dydd i bobl anabl iau yn eu galluogi i gyfranogi wrth gynllunio'r gwasanaethau

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Ymateb i wahanol fathau o anghenion trwy wella'r trefniadau ar gyfer asesu a rheoli gofal i'r henoed a phobl anabl
- Hyrwyddo byw'n annibynnol e.e. trwy wella Gwasanaethau Cefnogi Pobl i bobl ddigartref, pobl anabl a phobl hŷn, datblygu Gwasanaethau Dydd sy'n ymateb i anghenion unigol, darparu gwell amrywiaeth o Wasanaethau Seibiant
- Bydd Pobl Anabl Iau yn elwa o ganolfan adnoddau newydd a adeiladwyd i'r diben yng Nghwm Tawe, a fydd yn agor yn ystod haf 2005.

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Cynyddu nifer y bobl 65 oed neu drosodd y mae'r Cyngor yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal preswyl neu nyrsio fesul 1,000 o'r boblogaeth o 28.99 y llynedd i 31 erbyn 2004/05 a chynnal y perfformiad ar ôl hynny
- Cynnal nifer y bobl 65 oed neu drosodd y mae'r Cyngor yn eu helpu i fyw gartref fesul 1,000 o'r boblogaeth ar 131.58
- Cwblhau'r Strategaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles erbyn mis Mawrth 2005
- Lansio'r Strategaeth Pobl Hŷn ym mis Tachwedd 2004
- Cynyddu % defnyddwyr gwasanaethau a chydlynwyr gofal sy'n cael copi o Gynlluniau/Cytundebau Gwasanaeth Unigol i 97% erbyn 2007/08 ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu
- Cynyddu cyfran yr oedolion dan 65 oed ag anabledd dysgu y mae'r Cyngor yn eu helpu i fyw gartref i 4.2 fesul 1,000 erbyn 2007/08
- Cynyddu cyfran yr oedolion dan 65 oed â phroblemau Iechyd Meddwl y mae'r Cyngor yn eu helpu i fyw gartref i 4.1 fesul 1,000 erbyn 2007/08

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol Ng* – Tai

Yn ôl ymgynghoriad â chymunedau a buddiolwyr mae pobl yn meddwl bod Abertawe yn ddinas sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol sy'n cael ei chydnabod fel lle gwych i fyw ynddo. Mae'r Cynllun Cymunedol yn nodi y byddwn yn creu ac yn cefnogi gwell cartrefi a chymdogaethau er mwyn cyflawni hyn. Bydd y Cynllun Datblygu Unedol ar gyfer Abertawe yn sicrhau y gellir cynnwys holl anghenion tai a chyfleusterau amrywiol y gymuned.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn gweithio tuag at wella'r holl stoc **tai** cymdeithasol

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Ymgymryd â gwaith i wella effeithlonrwydd ynni tai Cyngor i leihau gwastraff a'u gwneud yn lleoedd mwy cysurus i fyw ynddynt
- Cynnal Adolygiadau Gwerth Gorau o Gynnal a Chadw Tai a Rheoli Tai a oedd yn arwain at welliannau gweithredol uniongyrchol
- Cynhyrchu Llawlyfr Tenantiaid mewn fformatau sy'n hygyrch i bob grŵp gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig a'r rheiny ag anableddau
- Gwella safonau byw mewn Tai Amlbreswyl

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Gweithio i sicrhau bod holl dai'r Cyngor yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru
- Darparu arweinyddiaeth strategol glir i'n holl bartneriaid er mwyn sicrhau cyflenwad priodol o gartrefi fforddiadwy o safon dda
- Arwain a hyrwyddo gwella cyflwr tai yn y sector preifat
- Diwallu anghenion tai pobl ddiamddiffyn (gan gynnwys pobl ddigartref, ffoaduriaid, ceiswyr lloches, pobl anabl, grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig)

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru ar gyfer holl dai'r Cyngor erbyn 2012 (gan gynnwys cynyddu nifer y cartrefi sy'n cyflawni elfen effeithlonrwydd ynni Safon Ansawdd Tai Cymru)
- Lleihau ôl-ddyledion tenantiaid fel cyfran o'r gofrestr rent o 0.034 i 0.027 erbyn 2007/08
- Lleihau colledion rhent ar gyfartaledd fesul tenant trwy adael anheddau'n wag yn ystod y flwyddyn o £107.96 yn 2003/04 i £92 erbyn 2007/08
- Gwella hysbysu am benderfyniadau ynglŷn â cheisiadau digartrefedd o fewn 33 diwrnod gwaith o 96% i 100% erbyn 2007/08
- Cydymffurfio â chôd ymarfer y Comisiwn dros Gydraddoldeb Hiliol ar gyfer tai sy'n cael eu rhentu
- Cyflwyno mesur ar gyfer bodlonrwydd tenantiaid o ran y gwasanaeth atgyweirio eleni
- Mesur yr amser ar gyfartaledd sy'n cael ei dreulio mewn llety dros dro gyda tharged o 56 diwrnod yn 2004/05 gan ostwng i 50 yn 2007/08
- Lleihau'r amser ailosod ar gyfartaledd ar gyfer anheddau'r awdurdod lleol sy'n cael eu gosod yn ystod y flwyddyn ariannol i 37 diwrnod yn 2007/08

## *Blaenoriaeth Gorfforaethol H* – Rheoli Gwastraff

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl:

- Yn fodlon yn gyffredinol ar y gwasanaethau Casglu Sbwriel ond maent am gael mwy o gyfleusterau ailgylchu gwastraff
- Yn disgwyl i'r Cyngor arwain y ffordd o ran datblygu polisïau sy'n diogelu ac yn gwella'r amgylchedd
- Am i strydoedd a ffyrdd Abertawe fod yn lanach

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu strategaeth **rheoli a lleihau gwastraff**

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Sefydlu rhaglen orfodaeth ar gyfer cŵn a pherchnogaeth gyfrifol
- Cynyddu ailgylchu ymyl y ffordd o 48,000 i 80,000 o gartrefi ac estyn y targedau a osodwyd ar gyfer deunyddiau a ailgylchwyd
- Cynyddu swm y deunyddiau adeiladu sy'n cael eu hailddefnyddio neu eu hailgylchu
- Cyflymu cael gwared â cherbydau wedi'u gadael
- Cwblhau rhaglen adennill ar gyfer safleoedd tir diffaith
- Buddsoddi mewn 5 cerbyd casglu sbwriel newydd

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Darparu strategaeth gwastraff bwrdeistrefol gynaliadwy i gyflawni gofynion statudol ac anstatudol
- Cyflwyno tendr am ddarparu proses trin gwastraff gweddilliol
- Cyflawni targedau statudol ar gyfer claddu sbwriel bwrdeistrefol
- Darparu a gwella'r trefniadau ailgylchu ar gyfer yr holl ddinasyddion ac ymwelwyr ag Abertawe
- Darparu gwell gwasanaeth glanhau ar gyfer holl ardaloedd Abertawe, gan gynnwys Canol y Ddinas ac ardaloedd siopa eraill
- Darparu ymagwedd Un Cyngor at atal a chael gwared â thipio anghyfreithlon o'r holl dir perthnasol
- Paratoi Cynllun Gwastraff Rhanbarthol gyda'n partneriaid

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Derbyn strategaeth gwastraff bwrdeistrefol gynaliadwy yn ystod 2004
- Cyrraedd targedau Lwfans Claddu Sbwriel Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2004 i 2008
- Cynyddu % y boblogaeth sy'n cael gwasanaeth ailgylchu ymyl y ffordd i 100% erbyn 2004/05
- Cynyddu % y preswylwyr sy'n fodlon ar y lefel glendid gyffredinol ar draws yr ardal i 80% erbyn 2008
- Cyflwyno ymagwedd gorfforaethol at atal a chael gwared â thipio anghyfreithlon erbyn diwedd 2004
- Cwblhau'r Cynllun Gwastraff Rhanbarthol erbyn diwedd Ebrill 2004
- Cynyddu tunelledd y gwastraff bwrdeistrefol sy'n cael ei ailgylchu o 9.1% yn 2002/03 i 22% yn 2007/08

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol I* – Cludiant

Ein huchelgais ar gyfer yr amgylchedd a ddatblygwyd yn y Cynllun Cymunedol yn dilyn ymgynghoriad yw bod Abertawe yn ddinas sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol sy'n cael ei chydnabod fel lle gwych i fyw ynddo. Er mwyn cyflawni hyn byddwn yn gwella cludiant a hygyrchedd, gan sicrhau'r cyfleoedd mynediad mwyaf i bawb drwy ddulliau cludiant amrywiol i'r ardal, o'r ardal ac o fewn yr ardal.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn datblygu ac yn gweithredu rhaglen **gludiant** integredig ar gyfer Abertawe

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Gweithio gyda grwpiau cludiant lleol i wneud cludiant cyhoeddus yn rhatach i bobl ifanc
- Cychwyn Ymgyrch Ymwybyddiaeth am Ddiogelwch Ffordd mewn ysgolion a datblygu pecyn cynhwysfawr o Fentrau Diogelwch Ffordd i leihau anafiadau o ganlyniad i ddamweiniau ffordd
- Gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyflwyno Tocynnau Bws Consesiynol i bobl dros 60 oed
- Adeiladu cyfleuster Parcio a Theithio newydd ar Ffordd Fabian a gwella effaith amgylcheddol y porth hwn i Abertawe
- Cyflawni perfformiad diogelwch ffordd sydd ymhlith y gorau yng Nghymru.

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Rhoi'r Cynllun Cludiant Lleol ar waith gyda'n partneriaid
- Cyflwyno ceisiadau presennol a nodi ceisiadau newydd ar gyfer prosiectau Llwybrau Diogel i'r Ysgol
- Cydweithredu â LlCC a Chynghorau cyfagos mewn perthynas â Chynllunio Cludiant Rhanbarthol
- Paratoi, datblygu a gweithredu rhaglen ragweithiol i hyrwyddo Diogelwch Ffordd
- Gwella'r isadeiledd gwybodaeth i wella Ansawdd Aer

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cynyddu nifer y bobl ifanc sy'n beicio neu'n cerdded i/o'r ysgol fel rhan o'r prosiect Llwybrau Diogel i'r Ysgol i 1600 erbyn 2007/08
- Cwblhau cynlluniau'r Cynllun Cludiant Lleol erbyn y dyddiadau targed
- Cynyddu nifer y ceir sy'n defnyddio gwasanaethau parcio a theithio i 212,889 erbyn 2007/08
- Cymryd rhan yn SWWITCH a chyflwyno adroddiadau Cynnydd Blynyddol i'r Cynulliad Cenedlaethol
- Llunio ac adolygu Cynllun Diogelwch Ffordd yn flynyddol
- Cwblhau cronfeydd data Ansawdd Aer erbyn mis Ebrill 2005
- Cynhyrchu Cynllun Datblygu Unedol adnau sy'n cael ei integreiddio â'r Cynllun Cludiant Lleol erbyn mis Rhagfyr 2004
- Cynnal % y goleuadau stryd diffygiol a hysbysir sy'n cael eu hatgyweirio o fewn 10 niwrnod gwaith ar 95% ar gyfer 2004/05
- Lleihau anafiadau diogelwch ffordd fesul 100,000 o'r boblogaeth i 20.89 (Lladd/ Anafiadau Difrifol) a 478.14 (Anafiadau Bach) erbyn 2006

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol J* – Troseddau

Yn ôl ymgynghoriad â'r cyhoedd a buddiolwyr, mae pobl:

- Yn teimlo'n ddiogel yn eu cymdogaethau yn ystod y dydd ond yn llai diogel ar ôl iddi dywyllu
- Yn pryderu am droseddau ac yn enwedig yn ofni troseddau wrth ymweld â Chanol y Ddinas
- Am i Abertawe fod yn ddinas y mae gan ei thrigolion amgylchedd diogel i fagu eu plant ynddo

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Byddwn yn cyflawni gostyngiad o ran **lefel troseddau** gyda'n partneriaid

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Estyn y rhwydwaith camerâu CCTV ac adeiladu ystafell reoli fodern newydd
- Gweithio gyda'n partneriaid i gyflawni gostyngiad 17% o ran troseddau ieuenctid a chyflwyno cynlluniau newydd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol, lleihau byrgleriaeth a diogelwch ffordd
- Sicrhau statws "Maes Parcio Diogel" ar gyfer 8 maes parcio a lleihau troseddau sy'n ymwneud â cheir mewn meysydd parcio sydd dan reolaeth y cyngor
- Galluogi 4000 o bobl ifanc i fynychu 30 clwb ieuenctid a hwyluso 68000 achos o bresenoldeb neu gysylltiadau trwy waith ieuenctid a gweithgareddau a phrosiectau allgymorth, gan gynnwys Grwpiau Pobl Ifanc
- Darparu nofio am ddim ar gyfer plant dan 16 oed, ac amrywiaeth eang o weithgareddau i bobl ifanc yn ystod gwyliau ysgol

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Bydd y Tîm Troseddau Ieuenctid yn gweithio i ostwng lefel troseddau ieuenctid
- Bydd y gwasanaeth Adfywio Cymunedol yn cefnogi ac yn gweithio gyda chymunedau ac asiantaethau
- Bydd addysg yn cynyddu presenoldeb mewn ysgolion, lleihau gwaharddiadau a chynnig darpariaeth 'allan o'r ysgol' lawn
- Bydd Cludiant a Pheirianneg yn hyrwyddo diogelwch ffordd, gwella diogelwch meysydd parcio a gwella arwyneb ffyrdd a goleuadau stryd
- Bydd y gwasanaeth Diogelwch Cymunedol yn cynyddu nifer y camerâu CCTV a gweithgareddau diogelwch cymunedol

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cynyddu % y preswylwyr sy'n dweud eu bod yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau o 73% yn 2002/03 i 80% erbyn 2004/05
- Cefnogi a chyfranogi mewn Partneriaeth Abertawe Mwy Diogel
- Lleihau nifer y byrgleriaethau domestig o 1491 yn 2003/04 i 1416 yn 2004/05
- Lleihau nifer y troseddau sy'n ymwneud â cherbydau o 6558 yn 2003/04 i 5719 yn 2004/05
- Lleihau'r hysbysiadau o droseddau gan bobl ifanc i'r Tîm Troseddau Ieuenctid gan 5% yn 2004/05

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol L* – Perfformiad.Gorau 2008

Un o nodau pennaf y Cyngor hwn yw **darparu gwasanaethau sydd o fewn chwartel uchaf yr Awdurdodau Unedol cymharol yn y DU**. Mae hyn yn golygu y bydd canlyniadau'r dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau'r Cyngor ymhlith y 25% uchaf o ran canlyniadau Awdurdodau Unedol cymharol yn y DU. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Cyngor wedi cyflwyno'r rhaglen **Perfformiad.Gorau@Abertawe**.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Parhau i wella ein rheolaeth integredig, corfforaethol, perfformiad ac ariannol gan ganolbwyntio ar **Berfformiad.Gorau 2008**

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Fframwaith Rheoli Perfformiad cydlynol ar lefel gorfforaethol a gwasanaeth sy'n berthnasol i'r holl staff ar draws y sefydliad cyfan
- Datblygu nifer cynhwysfawr o ddangosyddion perfformiad allweddol er mwyn mesur, monitro ac adolygu perfformiad
- Sefydlu system o adrodd am berfformiad yn chwarterol
- Cyflwyno cyfarfodydd rheolaidd ar gyfer monitro perfformiad a chyllid
- Rhoi mesurau ar waith i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd gwan a datblygu cryfderau

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Adolygu a gwella'r ymagwedd gorfforaethol integredig at reoli perfformiad a chyllid yn flynyddol
- Parhau i ddatblygu a gwella monitro perfformiad a chyllid a'r camau y mae eu hangen i gyflawni perfformiad gorau erbyn 2008 yn yr holl weithgareddau perthnasol
- Sicrhau bod trefniadau corfforaethol ar gyfer rheoli perfformiad a chyllid yn cael eu hymgorffori a'u gwella'n barhaus

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Adolygu'r trefniadau rheoli perfformiad yn flynyddol ym mis Rhagfyr
- Rhoi system rheoli perfformiad gorfforaethol newydd ar waith erbyn mis Ebrill 2005
- Cynyddu % gyffredinol y DP yn y chwartel uchaf i 75% erbyn 2007/08
- Cynyddu % gyffredinol y DPA sy'n cyflawni eu targed "chwartel uchaf" erbyn 2007/08
- Darparu gwybodaeth gywir ar gyfer cyfarfodydd monitro perfformiad misol a chwblhau camau gweithredu dilynol
- Gwella cywirdeb DP a "nodwyd yn deg" i 95% erbyn diwedd 2007/08

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol Ll* – Rheoli Asedau

Nodwyd Rheoli Asedau fel blaenoriaeth genedlaethol a maes sy'n peri "risg sylweddol" yn ôl y rhan fwyaf o'r Cynghorau yng Nghymru. Yn ôl y Cynulliad Cenedlaethol mae'n ofynnol i Gynlluniau Rheoli Asedau fod ar waith erbyn 1 Ebrill 2004.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol: Rheoli asedau** corfforaethol a strategol yn effeithiol (Cynllun Rheoli Asedau)

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**

- Gwella mynediad i'r anabl i adeiladau a derbynfeydd er mwyn hwyluso pethau i'n cwsmeriaid
- Moderneiddio cyfleusterau cyhoeddus ar draws y Ddinas a chyflawni cydnabyddiaeth genedlaethol yn sgîl gwobrau "Toiled y Flwyddyn"
- Gweithio yn ôl y targed i gwblhau adeiladu 2 ysgol arall
- Dechrau gweithio ar Stadiwm newydd y Graig Wen
- Dechrau gweithio ar baratoi Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer holl dir ac eiddo'r Cyngor
- Cwblhau rhaglenni gwaith cryfhau, adnewyddu a chynnal a chadw ar y rhwydwaith priffyrdd, yn enwedig y prif ffyrdd mynediad

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**

- Paratoi Cynllun Rheoli Asedau i sicrhau'r defnydd mwyaf effeithlon o asedau eiddo'r Cyngor
- Sefydlu rhaglenni cynnal a chadw a gynlluniwyd yn seiliedig ar ofynion blaenoriaeth ar gyfer yr holl dir ac eiddo a'r isadeiledd
- Gwella adenillion ariannol asedau eiddo anweithredol y Cyngor
- Cychwyn adolygiad eiddo a sefydlu rhaglen adleoli, gwaredu a chaffael a gynlluniwyd
- Rhoi Strategaeth a Chynllun Gweithredu ar waith ar gyfer Ynni Adeiladau Cyhoeddus

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**

- Lleihau allyriadau carbon yn y stoc gyhoeddus annomestig gan gyfanswm o 6% erbyn 2006/07
- Cynyddu % yr eiddo sydd yn y categorïau cyflwr adeiladau da a boddhaol gan 5% y flwyddyn
- Gwella cyfradd fewnol adenillion eiddo anweithredol gan 5% yn 2004/05
- Datblygu a gweithredu datrysiad TGCh i gefnogi rheoli asedau'n effeithiol erbyn mis Ionawr 2006
- Datblygu a gweithredu cronfa ddata o dir ac eiddo'r Cyngor yn seiliedig ar GIS trwy'r Mewnrwyd erbyn mis Ionawr 2006
- Cynyddu % adeiladau'r Cyngor sy'n agored i'r cyhoedd sy'n addas ac yn hygyrch i bobl anabl

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol M* – Gweithio Corfforaethol

Un o nodau pennaf y Cyngor yw gweithredu fel **un sefydliad** sy'n golygu chwalu rhaniadau rhwng adrannau a gwasanaethau, datblygu diwylliant "Un Cyngor" a gweithredu polisïau, systemau a gwasanaethau integredig a rennir.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Sicrhau **gweithio corfforaethol** cryf trwy ddatblygu'r fframwaith rheoli, polisïau, gweithdrefnau a systemau cyffredin, ac adnoddau (AD/Gwerthuso, Caffael, TGCh, Cyllid)

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Ymgymryd ag Adolygiad Gwerth Gorau o gaffael
- Mae'r Uned Caffael Strategol wedi rhoi amrywiaeth eang o gamau gweithredu ar waith gan gynnwys cynhyrchu systemau caffael modern, canllawiau a ffynonellau gwybodaeth a darparu gweithdrefnau i weithwyr eu dilyn
- Dechrau estyn system werthuso gorfforaethol ar draws yr awdurdod
- Sefydlu Uned Gyfathrebu newydd
- Lansio rhaglenni corfforaethol fel y grŵp uwch reolwyr a'r rhaglen datblygu rheolwyr, sef academi.perfformiad.gorau, i gefnogi gweithio corfforaethol
- Paratoi Strategaeth TGCh

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Rhoi rhaglen ar waith i gefnogi datblygiad fframwaith Rheolaeth Gorfforaethol, gan gynnwys:
  - rhaglenni corfforaethol i gefnogi gweithio corfforaethol ar gyfer pob haen reoli, e.e. grŵp uwch reolwyr
  - cynnig y rhaglen datblygu rheolwyr corfforaethol, academi.perfformiad.gorau, i'r holl reolwyr
  - sesiynau briffio a chysylltiadau mewnol corfforaethol ar gyfer yr holl reolwyr
- Gweithredu gwasanaethau, polisïau, gweithdrefnau a systemau cyffredin sy'n ymwneud ag AD, Gwerthuso, Caffael, TGCh a Chyllid

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- 90% o'r staff i gael gwerthusiad erbyn mis Medi 2004
- 90% o'r uwch reolwyr i gwblhau'r rhaglen gorfforaethol datblygu rheolwyr erbyn mis Ebrill 2005
- Cynyddu % y staff sy'n teimlo bod ganddynt ddigon o wybodaeth am newidiadau a datblygiadau yn y cyngor i 90% erbyn 2007/08
- Derbyn Strategaeth Rheoli Gwybodaeth a ddiweddarwyd yn ystod 2004
- Adolygu Strategaeth Fynediad, Polisi a Chynllun Hil, Cynllun Iaith Gymraeg, Strategaeth Ymgynghori a Strategaeth Mynediad i Wasanaethau y Cyngor yn ystod 2004
- Cynhyrchu Polisi Cyfle Cyfartal newydd yn ystod 2004 a Strategaeth newydd ar gyfer Pobl Anabl a Phobl Hŷn yn ystod 2005

## *Blaenoriaeth Gorfforaethol N* – Rheoli Prosiectau

Nodwyd Rheoli Prosiectau fel maes risg uchel ar draws Cymru ac fe'i cydnabuwyd fel maes i'w wella yn Nadansoddiad Awdurdod Cyfan y llynedd.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Gwella **rheoli prosiectau** yn gyffredinol

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Sefydlu Uned Prosiectau Arbennig newydd
- Gweithio gydag Ymgynghorwyr Allanol i ddatblygu fframwaith rheoli prosiectau
- Cynhyrchu methodoleg a phecyn offer i Reolwyr ac Arweinwyr Prosiectau

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Datblygu a gweithredu fframwaith Rheoli Prosiectau/Rhaglenni ar gyfer y Cyngor
- Cyflwyno methodoleg a phecyn offer ymarferol ar gyfer pob agwedd ar reoli prosiectau a newidiadau
- Datblygu sgiliau rheoli prosiectau trwy ddatblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi gyfnodol
- Cyflwyno Rhaglen Monitro Perfformiad Prosiectau corfforaethol
- Cymhwyso'r fframwaith Rheoli Prosiectau i bob prosiect a rhaglen fawr ar draws y Cyngor

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cytuno ar y fframwaith llywodraethu corfforaethol ar gyfer rheoli prosiectau a rhaglenni erbyn mis Mai 2004
- Hysbysu am 75% o'r prosiectau allweddol trwy'r fframwaith erbyn diwedd 2004/5
- 75% o'r prosiectau allweddol i gydymffurfio â dogfennaeth gorfforaethol erbyn diwedd 2004/5
- Awdurdodi 80% o'r prosiectau trwy gymeradwyo'r achos busnes erbyn diwedd 2004/5

# *Blaenoriaeth Gorfforaethol O* – Adnoddau Dynol

Er mwyn gwella gwasanaethau mae angen i'r cyngor gael y bobl gywir mewn lle sydd â'r sgiliau cywir. Cydnabuwyd Rheoli Pobl fel maes i'w wella yn Nadansoddiad Awdurdod Cyfan y llynedd. Yn ogystal â hyn, cydnabyddir gallu rheolaethol fel mater allweddol i nifer o awdurdodau.

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Gwella gallu ac effeithlonrwydd ein gweithlu — cytuno ar Strategaeth **Adnoddau Dynol** a flaenoriaethwyd a'i rhoi ar waith

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Sefydlu grŵp Ymgynghori Undebau Llafur misol i ddatblygu partneriaethau â'r undebau a gwella cyfathrebu
- Datblygu Strategaeth Iechyd Galwedigaethol Ddrafft
- Cyflawni Buddsoddwyr Mewn Pobl yn y Gwasanaethau Cymdeithasol, Tai, Gwasanaethau Cyfreithiol, Swyddfa Strategaethau a Gweithredol y Prif Weithredwr, Glanhau ac Arlwyo, Dysgu Gydol Oes, Swyddfa Weithredol Addysg a phob un o'r 5 Canolfan Hamdden
- Cychwyn ar hyfforddiant achrediad NVQ ar gyfer dros 1500 o weithwyr i ddiweddaru a gwella sgiliau gwasanaeth cwsmeriaid

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Datblygu a chytuno ar strategaeth AD a flaenoriaethwyd i wella gallu ac effeithlonrwydd gweithlu'r Cyngor
- Gweithredu gwasanaeth AD a DT effeithiol a rennir yn unol â'r strategaeth gymeradwy
- Datblygu gallu ac effeithlonrwydd gweithlu'r Cyngor, gan gynnwys:
  — dylunio, gweithredu a gwerthuso arfarniad perfformiad corfforaethol
  — sicrhau cyfleoedd hyfforddi a datblygu digonol ar gyfer arfarnwyr
  — datblygu'r fenter academi.perfformiad.gorau ar gyfer datblygu rheolwyr corfforaethol
  — cyflawni safon BMP ar draws pob gwasanaeth

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cytuno ar Strategaeth AD ym mis Medi 2004
- Cyhoeddi cynllun hyfforddiant corfforaethol
- 90% o'r gweithwyr i gael arfarniad perfformiad erbyn mis Medi 2004
- 90% o'r uwch reolwyr i gwblhau'r rhaglen datblygu rheolwyr corfforaethol erbyn mis Ebrill 2005
- Lleihau nifer y diwrnodau gwaith/call sy'n cael eu colli o ganlyniad i absenoldeb salwch i 8.8 erbyn 2008
- Lleihau ymddeoliadau o ganlyniad i iechyd gwael fel % o'r gweithlu cyfan i 0.2 erbyn 2008
- Cyflawni safon BMP ar draws pob gwasanaeth erbyn mis Ebrill 2006

## *Blaenoriaeth Gorfforaethol P* – Systemau "Swyddfa Gefn"

Mae rhaglen y Cyngor ar gyfer y pedair blynedd nesaf yn canolbwyntio'n bennaf ar anghenion ein cwsmeriaid a chyflawni perfformiad gorau. Adlewyrchir hyn yn y blaenoriaethau corfforaethol sy'n ymwneud â Gwasanaeth@Abertawe a Pherfformiad.Gorau2008, ond i gefnogi'r rhain **mae angen adnewyddu'r systemau TG corfforaethol "swyddfa gefn"**. Un o'r nodau pennaf eraill yw gweithredu fel un cyngor sy'n cynnwys **gweithredu polisïau, systemau a gwasanaethau integredig a rennir.**

**Blaenoriaeth Gorfforaethol:** Adnewyddu ein systemau TG corfforaethol **"swyddfa gefn"** (Cyllid/AD/Caffael), ochr yn ochr â Gwasanaeth@Abertawe, ynghyd â newidiadau o ran arferion gweithio

**Yr hyn rydym wedi ei wneud:**
- Dechrau gweithio ar system gyfrifiadurol integredig ar gyfer AD a'r Gyflogres i'w rhoi ar waith yn unol â chynnydd y prosiect Gwasanaeth@Abertawe
- Sefydlu Uned sy'n gyfrifol am ail-drefnu prosesau busnes a rheoli ansawdd/systemau
- Dechrau gweithio ar system rheoli perfformiad gorfforaethol

**Yr hyn rydym yn bwriadu ei wneud:**
- Adolygu ein systemau TG corfforaethol "swyddfa gefn" ochr yn ochr â Gwasanaeth@Abertawe, gan gynnwys:
  - — Cyllid
  - — AD
  - — Caffael
- Cefnogi caffael a gweithredu gwell systemau TGCh corfforaethol ar gyfer cyllid, AD a chaffael
- Datblygu a gweithredu newidiadau o ran arferion gweithio gan ddefnyddio cyfleoedd am wella prosesau wedi'u cyfuno â buddsoddi mewn technoleg i gyflwyno enillion cynhyrchedd ac effeithlonrwydd adnoddau sylweddol fel rhan o adnewyddu'r systemau TGCh corfforaethol

**Sut y byddwn yn mesur cynnydd:**
- Cwblhau adolygu a chaffael fel rhan o'r trafodaethau contractyddol gyda'r darpar bartner Gwasanaeth@Abertawe
- Rhoi systemau newydd ar waith erbyn dyddiadau targed gweithredol Gwasanaeth@Abertawe
- Cwblhau newidiadau cysylltiedig o ran arferion gweithio erbyn 2008

Os hoffech gael gwybodaeth fanylach, cyfeiriwch at y Cynllun Gwella llawn. Mae copïau ohono ar gael yn y canlynol:

**Derbynfa Neuadd y Sir**

**Derbynfa Neuadd y Ddinas**

Neu gallwch weld y ddogfen ar-lein ar wefan y Cyngor

**www.swansea.gov.uk**

# *Sylwadau*

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu ymholiadau am gynnwys y Cynllun Gwella hwn, ysgrifennwch at:

**Steve White**
**Pennaeth Perfformiad a Chynllunio Strategol**
**Neuadd y Sir**
**Heol Ystumllwynarth**
**Abertawe**
**SA1 3SN**

Neu gallwch anfon eich sylwadau a'ch ymholiadau ar ffurf e-bost at:

**Improvement@swansea.gov.uk**

I dderbyn y wybodaeth hon mewn fformat arall,
cysylltwch â Allan Archer - 01792 636974